# Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer
# Datblygu Gwledig (EAFRD)

# Y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (y Gronfa) 2019-2020

## Canllawiau

### 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn ganllaw i'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF). Cronfa **refeniw** yw hon a gefnogir drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2015-2020. Fe'i noddir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Bydd rownd nesaf yr RTEF yn agor ar gyfer datganiadau o ddiddordeb ddydd Iau, 25 Hydref 2018, a'r dyddiad cau fydd 23 Tachwedd. Yn dilyn asesiad, caiff ymgeiswyr llwyddiannus eu gwahodd i gyflwyno ceisiadau llawn erbyn 1 Chwefror 2019. Rhagwelir mai dyma fydd yr alwad olaf am geisiadau ac mae'n cwmpasu'r cyfnod ariannu o fis Ebrill 2019 tan fis Rhagfyr 2020.

### 2. Y Cyd-destun Strategol

Nod Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru - Partneriaeth ar gyfer Twf yw sicrhau cynnydd o 10% neu fwy yn enillion twristiaeth Cymru erbyn 2020. Er mwyn cyrraedd y targed hwn o ran twf, bydd yn rhaid wrth ffordd o weithio a fydd yn targedu pobl sy'n ymweld â Chymru am y tro cyntaf o farchnad ddomestig y DU ac o farchnadoedd tramor sy'n flaenoriaeth. Mae pwyslais newydd hefyd yn y strategaeth ar dargedu ymwelwyr o'r farchnad yng Nghymru ac ar dargedu buddsoddiad at gynnyrch a digwyddiadau o ansawdd uchel, sy'n gweddnewid delwedd Cymru.

Mae meithrin lleoedd yn elfen allweddol o'r strategaeth, a hynny er mwyn cydnabod pwysigrwydd gwella apêl cyrchfannau twristiaeth ledled Cymru er mwyn hybu twf twristiaeth. Bydd angen dull penodol iawn o weithio ar gyfer ein prif gyrchfannau, dinasoedd a threfi sy'n ganolbwynt i ardaloedd penodol.

Mae'r strategaeth hefyd yn mabwysiadu dull marchnata newydd a arweinir gan gynnyrch. Diben y strategaeth yw dangos bod rhesymau cryf dros ymweld â Chymru drwy hyrwyddo a phecynnu cynnyrch a datblygu profiadau 'gorau yn eu maes' mewn partneriaeth â rhanddeiliaid. Bydd Croeso Cymru yn cydweithio â'r diwydiant er mwyn ei helpu i ddatblygu a chyflwyno'r hyn sydd ganddo i'w gynnig mewn modd sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion y farchnad ac i greu llwyfannau a fydd yn galluogi busnesau i hyrwyddo eu hunain.

## 2.1. Diben y Gronfa

Diben y Gronfa yw gweithio gyda phartneriaid ar lefel cyrchfan i gyrraedd y targed twf o 10% a nodwyd yn y strategaeth trwy gefnogi gweithgareddau a fydd:

- Yn cyflawni amcanion strategol strategaeth twristiaeth Llywodraeth Cymru 'Partneriaeth ar gyfer Twf'.
- Yn cefnogi cyrchfannau ledled Cymru i hyrwyddo a datblygu cyrchfannau nodedig o ansawdd uchel i ymwelwyr trwy gynnal eu cynlluniau rheoli cyrchfannau er mwyn estyn eu tymor a chynyddu gwariant ymwelwyr.
- Yn galluogi cyrchfannau i wneud y gorau o fanteision alinio â'r Flwyddyn Darganfod 2019, y blynyddoedd thematig a Ffordd Cymru.
- Yn adlewyrchu'r tair prif thema ar gyfer hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru, sef antur, diwylliant a thirwedd.

## 2.2 Cyfatebiaeth i strategaeth Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Bydd y gronfa'n cyfrannu at y blaenoriaethau strategol a ddisgrifir yng Nghynllun Datblygu Gwledig Ewrop trwy:

- Hybu cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi, a datblygu'r economi mewn ardaloedd gwledig.
- Hwyluso arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach a chreu swyddi.
- Meithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig.

## 3. Alinio â Brand Cymru

Bydd yn rhaid i bob prosiect a gefnogir sicrhau bod y cynnyrch, y profiad a'r deunyddiau hyrwyddo yn bodloni amcanion brand Cymru a gwerthoedd y brand:-

Amcanion y Brand:
- Codi ein statws
- Rhyfeddu ac ysbrydoli
- Newid canfyddiadau
- Gwneud pethau da
- Adlewyrchu natur unigryw Cymru

Gwerthoedd y Brand
- Dilys
- Creadigol
- Byw

## 3.1 Marchnata ar sail y Blynyddoedd Thematig

Mae'r 'Blynyddoedd Thematig' yn gyfle i fusnesau a phartneriaethau yn y diwydiant weithio gyda Croeso Cymru i gynnig cynifer o weithgareddau ag y bo modd ac i ddatblygu eu busnes i'r eithaf drwy ganolbwyntio ar ddigwyddiadau, gweithgareddau a chynhyrchion

twristiaeth a fydd yn cyd-fynd â'r thema ac a fydd yn cael eu cynnig dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Blwyddyn Antur 2016 oedd y gyntaf mewn cyfres o flynyddoedd thematig, yna cynhaliwyd Blwyddyn y Chwedlau yn 2017 a Blwyddyn y Môr yn 2018. Canolbwynt pob un oedd datblygu a hyrwyddo cynnyrch Cymru'n llwyddiannus. Neilltuir cyfnod ariannu 2019/2020 ar gyfer cynigion all ychwanegu at werth Blwyddyn y Môr cyn hynny a'r Flwyddyn Darganfod yn 2019 a blynyddoedd thematig eraill yn y dyfodol; ac sy'n adlewyrchu o leiaf un o'r tair prif thema ar gyfer hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru, sef antur, diwylliant a thirwedd, a Ffordd Cymru. Ewch i'r ddolen yma am ragor o wybodaeth:**https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/y-blynyddoedd-thematig**

### 3.2 Blwyddyn Darganfod 2019

Bydd y Flwyddyn Ddarganfod yn adeiladu ar y tair thema flaenorol ac yn pwysleisio bod Cymru yn ferw o gynhyrchion, digwyddiadau, llwybrau a phrofiadau dilys y gall ymwelwyr eu darganfod ym mhob cwr o Gymru. Mae'n gyfle i ddathlu popeth sy'n newydd, unigryw a nodedig am ein gwlad ac sy'n ei gwneud yn berthnasol, deniadol a diddorol i bobl eraill.

Mae'n gyfle i lwyfannu ein hanturiaethau, tirwedd a'n diwylliant epig a'r ffordd y maent yn cydblethu i greu profiadau nodedig a chofiadwy. Bydd y flwyddyn yn denu mwy o sylw i gyrchfannau penodol ledled Cymru, gan ddefnyddio Ffordd Cymru fel platfform.

Bydd marchnadoedd y dyfodol am allu uniaethu â stori gwlad a'i neges a chwilio am brofiadau ystyrlon. Bydd gofyn i ddeunydd, negeseuon, cynnyrch a phrofiadau felly ganolbwyntio ar ddangos a rhoi profiadau sy'n cyfoethogi'r ymwelwyr, ac yn ogystal ag adrodd stori Cymru, bydd gofyn iddynt ddangos sut y mae Cymru'n gwneud gwahaniaeth fel eu bod yn gadael wedi dysgu rhywbeth newydd ac arbennig amdanyn nhw eu hunain. Ewch i'r ddolen isod am ragor o wybodaeth: **businesswales.gov.wales/tourism/cy/2019-blwyddyn-darganfod**

### 3.3 Ffordd Cymru

Teulu o dri llwybr yw Ffordd Cymru a lansiwyd yn 2017. Mae'n rhaglen o weithgareddau dros gyfnod o 10 mlynedd a fydd yn esblygu ac yn datblygu, gan gynnig cyfleoedd i'r diwydiant a chyrchfannau fabwysiadu'r cysyniad ac ennill mantais gystadleuol drwy wneud hynny. Bydd Ffordd Cymru'n ganolbwynt ar gyfer gwaith marchnata rhyngwladol ac yn fodd i sicrhau proffil uwch i Gymru ledled y byd. Bydd hefyd, wrth gwrs, yn ehangu apêl Cymru a'r hyn y gall ei gynnig mewn marchnadoedd domestig craidd cystadleuol. Ewch i'r ddolen isod am ragor o wybodaeth. **www.fforddcymru.cymru**

Dyma'r tri llwybr cyntaf y byddwn yn hoelio sylw arnynt wrth farchnata a datblygu cynhyrchion:

- Ffordd y Gogledd
- Ffordd yr Arfordir
- Ffordd Cambrian

Bydd pob llwybr yn ceisio dangos y gorau y gall Cymru ei gynnig, gan amrywio o'r profiad a gynigir i ymwelwyr, i'r croeso cynnes a gânt, i'r ffaith bod ein busnesau twristiaeth yn coleddu'r hyn sy'n gwneud Cymru yn unigryw. Wrth hyrwyddo'r llwybrau hyn, byddwn yn

annog ymwelwyr i drefnu'u tripiau eu hunain yn unol â'u dymuniadau personol ac i deithio oddi ar y prif lwybrau (e.e. 40 munud oddi ar y briffordd), a hyrwyddo amrywiaeth o ddulliau teithio bob tro e.e. trên/beic/troed/car.

O ran datblygu a hyrwyddo cynnyrch, bydd y llwybrau craidd newydd yn fframwaith ar gyfer hyrwyddo'r arlwy gwych y gall Cymru ei gynnig, boed yn arlwy sy'n bodoli eisoes neu'n arlwy newydd. Wrth fynd ati i ddatblygu cynhyrchion newydd, bydd modd manteisio ar fenter Ffordd Cymru er mwyn tynnu sylw at gynhyrchion arloesol thematig a ddatblygir ar y cyd. Yn rhannau eraill y byd, mae hyrwyddo llwybrau wedi bod yn sbardun ar gyfer datblygu amrywiaeth eang o fentrau o dan ofal sectorau preifat a chyhoeddus.

## 4. Meini Prawf Cymhwysedd y Gronfa RTEF a'r Rhaglen Gyllido

### 4.1 Alinio'r Prosiect

Lle medrir, bydd angen i Bartneriaethau Rheoli Cyrchfannau gymeradwyo pob cais.

Bydd yr alwad am arian ar gyfer 2019/2020 yn fwy penodol, ac yn canolbwyntio ar brosiectau sy'n cynnig cynlluniau marchnata arloesol, deunydd deniadol, pecynnu cynnyrch a chreu cynnyrch sy'n hawdd eu harchebu.

**Bydd angen i'r prosiectau a gynigir:**

- ddatblygu a gwella gweithgareddau twristiaeth sydd wedi cael blaenoriaeth yn y cynlluniau rheoli cyrchfannau a/neu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu twristiaeth
- dangos y galw am y gweithgarwch a gynigir
- bod yn fwy ac yn well, a llai ohonynt
- diwallu anghenion un neu ragor o is-grwpiau'r farchnad a dargedir gan Croeso Cymru
- rhoi ffocws i'r diwydiant fydd yn sail ar gyfer cynnig cydlynus all bara flwyddyn a mwy a dangos y gall gael effaith ar y farchnad dros gyfnod hir, gyda strategaethau ymadael cyraeddadwy
- ymchwilio i ffyrdd digidol newydd/arloesol o gyflwyno Cymru i ymwelwyr
- bod yn gyson â blynyddoedd thematig Croeso Cymru a'r Flwyddyn Darganfod 2019
- alinio â gwerthoedd craidd brand Cymru - Dilys, Creadigol a Byw - yn ogystal â'r themâu canlynol:
    - Ffordd Cymru (yn enwedig y bwyd ar Ffordd Cambria)
    - Llwybr Arfordir Cymru - adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd
    - Beicio a beicio mynydd
    - Gwylio'r sêr
    - Achau, llesiant a hunanddarganfod
    - Bwyd a Diod

Gellir derbyn ceisiadau gan sefydliadau sy'n arwain cynigion cydweithredol ar ran partneriaethau sy'n cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd mewn Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau mewn un neu fwy o gyrchfannau neu ranbarthau.

### 4.2 Allbynnau Disgwyliedig

Prif allbynnau'r prosiect fydd creu cynnyrch twristiaeth newydd a chodi ymwybyddiaeth am Gymru fel cyrchfan wyliau. Ymysg yr allbynnau disgwyliedig eraill mae:

- Nifer y cynhyrchion twristiaeth newydd a ddatblygwyd
- Nifer y mentrau twristiaeth newydd a grewyd
- Nifer yr ymwelwyr
- Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy
- Cyrhaeddiad y deunyddiau marchnata
- Ymgysylltiadau â chynnwys

Noder y caiff canllawiau cynhwysfawr ar yr allbynnau priodol eu cynnwys gyda'r ffurflen gais a ddarpareir i ymgeiswyr sydd wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb llwyddiannus..

### 4.3 Yr hyn y gellir ei gyllido

Cronfa refeniw yn unig yw hon ac **nid oes costau cyfalaf** ar gael. Ceir terfyn uchaf o £150,000 dros 2 flynedd o arian RTEF a'r grant lleiaf y gellir ei roi yw £30,000 y prosiect gydag o leiaf 10% ohono'n arian cyfatebol. Mae hyd at 90% o'r cyllid ar gael i weithgareddau prosiectau cymwys. Fodd bynnag, bydd prosiectau sydd â chyfran uwch o arian cyfatebol yn cael sgôr fwy ffafriol o dan y meini prawf asesu.

Mae'r cyfnod ariannu'n rhychwantu dwy flynedd ariannol 2019/2020 a 2020/2021. ond gan y cefnogir y gronfa hon gan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 sy'n cael ei gyllido gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), bydd gofyn bod holl wariant y prosiectau a gymeradwyir fod wedi'i wario erbyn 31 Rhagfyr 2020.

Bydd y mathau isod o weithgareddau'n cael eu hystyried (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr)

- Datblygu Cynnyrch Meddal − dehongli ffisegol a digidol, datblygu llwybrau gan ddefnyddio refeniw penodol; mentrau rheoli ymwelwyr e.e. trafnidiaeth i ymwelwyr lle gellir nodi bod galw a bwlch; digwyddiadau ar raddfa fach (heblaw am ddigwyddiadau'r diwydiant teithio)
- Marchnata (Creu deunydd a'i gyfieithu i ieithoedd eraill; PR ar gyfer y gyrchfan; deunydd digidol; datblygu teithiau; gwybodaeth i ymwelwyr; pecynnu/clystyru cynnyrch; rhaglenni i ddenu cwmnïau trefnu teithiau/ digwyddiadau busnes cyhyd â bod y rhain yn cyd-fynd â rhaglenni Croeso Cymru (gan gynnwys sioeau masnach, digwyddiadau a thripiau cyfarwyddo cyn belled â bod hynny'n rhan o berthynas ehangach â'r diwydiant teithiau/digwyddiadau busnes)
- Datblygu Busnes Cyrchfannau − rhwydweithiau cymorth busnes; hyfforddiant sgiliau nad yw'n achrededig; pecynnau cymorth i fusnesau etc.
- Costau staff sy'n gysylltiedig â gweithgarwch ar brosiectau. Fodd bynnag, **ni ddylai'r** costau ar gyfer cydgysylltu/rheoli prosiect fod yn fwy nag 20% o gyfanswm costau partneriaid unigol y prosiect, ac eithrio'r trydydd sector. Bydd angen i gostau fod yn seiliedig ar gyfraddau cyflog gwirioneddol.

**4.4. Yr hyn na ellir ei gyllido:**
Ni ellir ystyried cyllido'r isod

- Partneriaid arweiniol o'r trydydd sector a'r sector preifat NAD ydynt yn hyfyw yn ariannol. Bydd angen iddynt ddarparu mantolen boddhaol yn seiliedig ar dair blynedd o gyfrifon ariannol ar y cam datgan diddordeb 1 fel rhan o'r asesiad cymhwysedd.
- Costau cyfalaf
- Prosiect sydd o fudd i un buddiolwr;
- Ni chyllidir prosiectau sy'n costio llai na £30,000 ac sydd â llai na 10% o arian cyfatebol
- Prosiectau nad ydyn nhw'n dod o dan y rheolau ar gymorth gwladwriaetholhttp://ec.europa.eu/petition/state_aid/legislation/legislation.html
- Costau rhedeg cyffredinol ar gyfer sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â chyflenwi'r prosiect
- Prosiectau lleol/rhanbarthol sy'n gysylltiedig â gwaith ymchwil
- Hyfforddiant achrededig
- Gweithgareddau sydd y tu allan i'r amserlen cyllid grant (01 Ebrill 2019 - 31 Rhagfyr 2020)

Rhaid i fusnesau a sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r cydweithredu fod yn rhan o'r cadwyni cyflenwi ar gyfer y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth, bwyd a/neu letygarwch.

Ni chaiff ymgeiswyr fod yn y sector pysgodfeydd neu ddyframaethu (oherwydd bod angen sicrhau cyfatebolrwydd â Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop).

## 5. Datgan Diddordeb yn y Gronfa a'r Broses Ymgeisio

### 5.1 Y Broses Ymgeisio

Rhaglen gyllido dros gyfnod o ddwy flynedd yw hon a all gynnig cyfanswm o hyd at £150,000 i brosiect dwy flynedd. Gall yr ymgeisydd sy'n gwneud cais am gyllid drafod y cynnig â'r Rheolwr Ymgysylltu Twristiaeth Rhanbarthol (nodir y manylion cyswllt yn Atodiad 2) cyn cyflwyno cynnig. Dim ond cynnig arweiniad a chyngor ar gymhwysedd y caiff ef/hi ei wneud.

Bydd pob prosiect yn cael ei arfarnu mewn dau gam:

- Cam 1 − Ar ôl i'r ffurflen Datgan Diddordeb gael ei chyflwyno, bydd archwiliadau'n cael eu cynnal i sicrhau bod yr holl feini prawf cymhwysedd wedi'u bodloni. Dim ond y prosiectau hynny sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd fydd yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn. Caiff cynigion aflwyddiannus ei hysbysu yn dilyn asesiad cam 1..

- Cam 2 – Caiff ffurflenni cais eu hanfon at y cynigion sydd wedi eu gwahodd i gyflwyno cais llawn, i'w dychwelyd erbyn 1 Chwefror. Bydd ceisiadau llawn yn cael eu harfarnu a'u hadolygu gan banel buddsoddi annibynnol, yn unol â'r meini prawf arfarnu yn Atodiad 1. Caiff prosiectau llwyddiannus sy'n cyrraedd y sgôr isafswm eu hargymell i'r Gweinidog er mwyn iddo'u hystyried a phenderfynu arnynt.

Bydd yn rhaid i bob ffurflen Datgan Diddordeb a phob Cais Llawn gael eu cwblhau'n llawn a'u cyflwyno i RegionalTourism@llyw.cymru.

## 5.2 Cyfnodau Ariannu ac Amserlenni

| **Camau'r broses** | **Dyddiad Dechrau** | **Dyddiad Cau** |
|---|---|---|
| **Datganiadau o Ddiddordeb** | **25 Hydref 2018** | **23 Tachwedd 2018** |
| **Archwiliadau Cymhwysedd ar y Datganiadau o Ddiddordeb** | **26 Tachwedd 2018** | **30 Tachwedd 2018** |
| **Hysbysu ymgeiswyr am y penderfyniad ar y Datganiad o Ddiddordeb** | **3 Rhagfyr 2018** | **7 Rhagfyr 2018** |
| **Ceisiadau Llawn i'w hanfon allan** | **W/c 3 Rhagfyr 2018** | **1 Chwefror 2019** |
| | | **Hysbysir yr ymgeiswyr o'r canlyniad yn dilyn asesiad y panel llawn a'r gwiriadau mewnol.** |

(Amcanion yw'r dyddiadau hyn ac mae'n bosibl y byddant yn newid)

Rhaid i bob prosiect ddechrau o fis Ebrill 2019 ymlaen

## 5.3 Ffurflen gais lawn – canllawiau ar gyfer yr amserlen daliadau

Fel rhan o'ch ffurflen gais lawn bydd angen ichi ddarparu amserlen daliadau ar gyfer cyfnod cyllido llawn eich prosiect rhwng mis Ebrill 2019 a mis Rhagfyr 2020.

Bydd cyfnodau hawlio chwarterol yn un o amodau **gorfodol** grant ar gyfer prosiectau dros gyfnod o hyd at flwyddyn ariannol 2019/20 (Mehefin, Medi a Rhagfyr 2019, a Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr 2020) a bydd yn cael ei nodi yn y llythyr cynnig. Fodd bynnag, gellir cyflwyno hawliadau ychwanegol ar unrhyw adeg yn ogystal ag yn unol â'r terfynau amser penodol hyn. Os bydd angen cyfnodau hawlio ychwanegol arnoch, ychwanegwch nhw at y tabl a ddarperir yn y ffurflen gais.

Dylai'r proffil gwario a hawlio adlewyrchu'r gwariant a'r gweithgarwch a amlinellwyd yng nghwestiwn 6 Cynllun y Prosiect a sut y Cyflawnir y Prosiect:

Bydd y cyfnod cyllido cymwys yn cynnwys y cyfnod rhwng y dyddiad cymeradwyo ar y llythyr cynnig tan 31 Rhagfyr 2020.

### 5.4 Cymeradwyo'r cais llawn

- Bydd pob cynnig a asesir yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru i'w hystyried.
- Ar ôl i'r Gweinidogion ystyried y cynigion, bydd yr ymgeiswyr yn cael eu hysbysu am y penderfyniad terfynol a bydd llythyrau cynnig yn cael eu hanfon at yr ymgeiswyr llwyddiannus.
- Bydd angen llofnodi a chydlofnodi'r llythyrau cynnig a rhaid anfon un copi yn ôl i Lywodraeth Cymru cyn dechrau ar y prosiect

### 5.5 Apelau

Cronfa ddewisol yw hon ac nid oes proses apelio benodedig. Caiff ymgeiswyr aflwyddiannus Cam 2 wybod am benderfyniad y panel asesu a chânt adborth am eu cais.

### 5.6 Hawlio, Talu a Monitro

- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd yn rhaid ichi fodloni'r amodau talu a nodir yn yr atodlen i'r llythyr cynnig.
- Telir y grant ar y gwariant sydd wedi'i ysgwyddo, ar sail y dystiolaeth a'r ffurflen hawlio a rhaid cwblhau'r gweithgaredd erbyn diwedd Rhagfyr 2020
- Caiff yr amserlen hawlio a'r proffil gwariant y cytunwyd arnynt eu nodi yn y llythyr cynnig. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i adolygu'r grant a ddyfarnwyd os na fydd yr amserlen hawlio yn cael ei dilyn.
- 'Costau a ysgwyddir' yw cost y nwyddau yr ydych wedi talu amdanynt trwy daliad neu fel arall. Mae hyn yn ofyn ar bawb **heblaw'r Trydydd Sector**
- Gellir cyflwyno ffurflenni hawlio yn electronig ond ni chaiff hawliadau eu prosesu tan i dystiolaeth lawn gael ei chyflwyno a'i hasesu.
- Ar ôl ei gymeradwyo, bydd y taliad yn cael ei wneud o fewn pedwar diwrnod gwaith.
- Dylai adroddiad cynnydd a thystiolaeth gael eu cyflwyno gyda phob hawliad.
- Rhaid dangos tystiolaeth lawn o'r 10% o arian cyfatebol fel rhan o'r broses hawlio
- Rhaid i bob hawliad gynnwys tystiolaeth o'r allbynnau.

### 5.7 Monitro ar ôl Cwblhau

Bydd yr hyn a gyflawnir a'r allbynnau y cytunwyd arnynt ac y llwyddir i'w gwireddu'n dal i gael eu cofnodi am hyd at 6 mis ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau a bydd hynny'n un o amodau'r cynnig.

## 6. Egwyddorion a gofynion cyllido

### 6.1 Y Sector Gwirfoddol neu'r Trydydd Sector – Yr Egwyddor Adennill Costau Llawn

Mae Cynllun y Trydydd Sector yn unigryw i Gymru ac mae'n un o ofynion statudol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 – sy'n golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn hyrwyddo buddiannau sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r **Egwyddor Adennill Costau Llawn** yn cydnabod yr angen i gynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chyflenwi prosiect neu wasanaeth. Gweler tudalen 28 am ragor o fanylion am y polisi trydydd sector.

### 6.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae amcanion y Ddeddf yn dangos sut y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i wireddu'r weledigaeth i Gymru sydd yn y 'nodau llesiant'. Mae'r saith nod llesiant yn dangos pa fath o Gymru y carwn ei gweld. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir ei bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i wireddu'r nodau i gyd, nid dim ond un neu ddau. Bydd cyfeirio at sut mae'ch prosiect yn cyflawni'r nodau hyn, ac esbonio hynny, yn bwysig wrth inni asesu cais. Mae'r nodau llesiant i'w gweld yma: gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy

### 6.3 Datganiad Preifatrwydd Diogelu Data

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen Datgan Diddordeb a'r ceisiadau llawn yn destun Hysbysiad Preifatrwydd . Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn esbonio sut y mae Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn defnyddio'ch data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

### 6.4 Caffael yn yr Undeb Ewropeaidd

1. Mae gofyn i gyrff sector cyhoeddus a gwmpesir gan Gyfarwyddebau Caffael y CE ddilyn rheolau a gweithdrefnau caffael eu sefydliadau eu hunain. Amlinellir y rheolau sylfaenol isod

2. Mae Cyfarwyddebau Caffael y GE yn berthnasol i gontractau sy'n cael eu cyllido neu eu cyllido'n rhannol o Gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r rheolau caffael llawn yn berthnasol i bob corff cyhoeddus a menter fasnachol yn y sector preifat sy'n derbyn cymorth grant o 50% neu fwy o gyfanswm costau'r prosiect ac eithrio TAW.

3. O fewn cwmpas y Cyfarwyddebau a nodir isod, rhaid i gontractau sy'n uwch na therfynau penodol gael eu hysbysebu yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU). Rhaid i geisiadau ar gyfer contractau gael eu hasesu ar sail wrthrychol a dylid cyhoeddi'r dyfarniadau contract yn y Cyfnodolyn am yr hyd o amser perthnasol a nodwyd yn y weithdrefn gaffael a ddilynwyd. Gellir adfer y grant yn llawn neu'n rhannol os canfyddir yn ddiweddarach nas cydymffurfiwyd â'r rheolau caffael.

Gellir dod o hyd i'r wybodaeth lawn ar dendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus yma - Canllawiau Technegol : https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/rhaglen-datblygu-gwledig-2014-2020-canllaw-technegol-tendro-cystadleuol-chaffael-cyhoeddus_2.pdf

Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU), nid oes angen ichi ddilyn y gweithdrefnau manwl a amlinellir yn y Cyfarwyddebau Caffael.

Gweler y tabl am fanylion isod y trothwyon OJEU.

| Gwerth Caffael* | Gofyniad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| £0 - £4,999 | Un dyfynbris ysgrifenedig | Argymhellir defnyddio cyflenwyr sydd wedi cofrestru ar www.gwerthwchigymru.gov.wales |
| £5,000 – £24,999 | Tri dyfynbris ysgrifenedig | Argymhellir defnyddio cyflenwyr sydd wedi cofrestru ar www.gwerthwchigymru.gov.wales |

***Nodwch: nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys TAW**

**4.2 Yn uwch na throthwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU)**

Ble y mae gwerth y caffael arfaethedig yn fwy na throthwyon presennol Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU), mae angen ichi ddilyn y gweithdrefnau manwl sydd wedi'u nodi yn y Cyfarwyddebau Caffael.

Gweler y tabl am fanylion uwchben trothwyon OJEU

| Gwerth Caffael* | Gofyniad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| £25,000 - £106,046 (Nwyddau a Gwasanaethau) | Cystadleuaeth lawn ac agored | Rhaid cyhoeddi gofynion drwy www.gwerthwchigymru.gov.wales Gellir ceisio dyfynbrisiau drwy gysylltu'n uniongyrchol â chyflenwyr |
| £25,000 - £4,104,393 (Gwaith) | Cystadleuaeth lawn ac agored | Rhaid cyhoeddi gofynion drwy www.gwerthwchigymru.gov.wales Gellir ceisio dyfynbrisiau drwy gysylltu'n uniongyrchol â chyflenwyr |
| £106,047 a mwy (Nwyddau a Gwasanaethau) | Cystadleuaeth lawn ac agored | Cyhoeddi'r gofyniad ledled Ewrop drwy gyfrwng www.gwerthwchigymru.gov.wales |
| £4,104,394 a mwy (Gwaith) | Cystadleuaeth lawn ac agored | Cyhoeddi'r gofyniad ledled Ewrop drwy gyfrwng www.gwerthwchigymru.gov.wales |

***Mae Nwyddau a Gwasanaethau yn cyfeirio at unrhyw beth a brynwch ar wahân i Waith Prosiect**
***Nodwch: nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys TAW**

Noder nad yw'r symiau hyn yn cynnwys TAW.

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi, o leiaf bob chwe mis, fanylion am y buddiolwyr sy'n derbyn taliadau datblygu gwledig. Rhaid dangos y dystiolaeth caffael wrth hawlio, nid wrth ymgeisio.

Dylai noddwyr y prosiect ddefnyddio'r gofrestr a'r cofnod ar y cyd â "Canllaw Technegol Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus". Fe welwch y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru.

Rhaid i'r ddogfen hon fod yn gyflawn ac yn gyfoes cyn pob ymarfer tendro ac ar gael i'r rheini sy'n gofyn amdani. O beidio â sicrhau hynny, gellid hawlio'ch grant neu ran ohono yn ôl.

### 6.5 Grantiau Refeniw ym maes Twristiaeth – Gofynion y Safonau Iaith

Mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ogystal, mae'r Safonau'r Iaith yn ei gwneud yn ofynnol o dan y gyfraith i Lywodraeth Cymru lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol inni ystyried sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau ar y grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar:

- Gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg,
- Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Er mwyn bodloni'r gofynion hyn, bydd yr amodau canlynol yn cael eu gosod, mewn perthynas â defnydd o'r Gymraeg, ar weithgareddau a ariennir gan y grant. Bydd yr amodau iaith hyn yn gyson â'r safonau y mae'n ofynnol i'r Adran Twristiaeth a Marchnata gydymffurfio â nhw mewn perthynas â'i gweithgareddau ei hun.Dylai ymgeiswyr ofyn am gyngor ar y gofynion dwyieithrwydd sy'n gysylltiedig â'u prosiectau yn gynnar yn ystod y broses ymgeisio a dylent sicrhau bod pob agwedd wedi cael ei phrisio a'i chynnwys yn eu ceisiadau.

**Datblygu cynnyrch**

Bydd yr holl ddeunyddiau addysgol, rhyngweithiol a deongliadol yn ddwyieithog

- Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithio'n llawn yn Gymraeg.

**Digwyddiadau ar raddfa fach**

- Pan fyddwn yn cyllido digwyddiadau ar raddfa fach ar gyfer ymwelwyr, bydd agweddau megis arwyddion, cyhoeddiadau cyhoeddus a gwahoddiadau / cyhoeddusrwydd yn ddwyieithog

**Cyfathrebu/Marchnata**

- Deunydd marchnata − bydd pob deunydd marchnata yn ddwyieithog, ac eithrio deunyddiau sy'n targedu cynulleidfaoedd y tu allan i Gymru yn unig.
- Bydd pob gwefan a ariennir gan y grant yn ddwyieithog, ac eithrio gwefannau ar gyfer cynulleidfaoedd y tu allan i Gymru yn unig. Os bydd ymgeiswyr yn cyllido gwefannau sy'n targedu cynulleidfaoedd y tu allan i Gymru yn Saesneg yn unig, bydd angen iddynt gyflwyno tystiolaeth sy'n dangos bod y gynulleidfa arfaethedig yn bodoli y tu allan i Gymru (e.e. drwy ddefnyddio Google Analytics). Caiff unrhyw ddefnydd gan ddefnyddwyr yng Nghymru ei ddiystyru at ddibenion monitro. Os gwelir maes o law fod defnyddwyr yng Nghymru yn defnyddio'r wefan, yna bydd yn rhaid ailedrych ar y ddarpariaeth.Bydd yn rhaid i bob gwefan sy'n targedu cynulleidfaoedd y tu allan i Gymru ddatgan hynny'n glir ar ei tudalen hafan.
- Mae lle i ddatblygu gwefannau Cymraeg wedi'u teilwra ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru er mwyn bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg am wybodaeth.
- Bydd y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg a Saesneg oni bai eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer cynulleidfaoedd y tu allan i Gymru yn unig.. Unwaith eto, bydd angen i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth nad yw eu cyfryngau cymdeithasol yn targedu cynulleidfaoedd yng Nghymru, os ydynt yn cael eu darparu yn Saesneg yn unig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi'r ddogfen 'Canllaw ar ddefnyddio'r Gymraeg yng ngwaith cyfathrebu a marchnata Llywodraeth Cymru'. Mae'r canllaw yn ymdrin â gwaith cyfathrebu sy'n cael ei wneud yng Nghymru yn unig ac mae'n adlewyrchu dehongliad Llywodraeth Cymru o Safonau'r Gymraeg. Y nod yw rhoi eglurder a manylu ar unrhyw weithgarwch cyfathrebu ar draws amryfal sianeli cyfathrebu.

Noder nad yw'r safonau yn berthnasol i hyfforddiant a ddarperir ar gyfer pobl dros 16 oed.

**6.6 Datganiadau i’r Wasg a chyhoeddusrwydd am y project**

Cyhoeddusrwydd, gan gynnwys cyhoeddiadau ffurfiol ac anffurfiol; llyfrynnau, pamffledi, taflenni ac eraill deunydd printiedig; hysbysebion recriwtio swyddi; erthyglau i'r wasg a cyfnodolyn a datganiadau i'r wasg, cyfweliadau gyda'r cyfryngau (teledu a radio) a lansiadau ac agoriadau swyddogol

Bydd angen i'r holl brojectau llwyddiannus gydymffurfio â’r amodau cyhoeddusrwydd isod::

•cydnabod y cymorth a roddwyd gennym ar bob deunydd cyhoeddusrwydd, datganiad i’r wasg a deunydd marchnata a gynhyrchir, gan nodi ei fod wedi dod drwy Raglen Datblygu Gwledig − Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, a Llywodraeth Cymru. Rhaid i gydnabyddiaeth o'r fath fod ar ffurf sy'n cael ei chymeradwyo gennym ni a rhaid iddi gydymffurfio â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru, a anfonir yn y llythyr cynnig cyllid.

• sylweddoli y caiff manylion sylfaenol prosiectau a gymeradwyir eu dangos ar wefan Llywodraeth Cymru, hynny yn unol â Rheoliadau'r CE a gall ddewis rhoi cyhoeddusrwydd i brosiectau cymeradwy trwy sianeli eraill e.e. datganiadau i'r wasg, hysbysebion golygyddol, taflenni, digwyddiadau ac ati.  Bydd y manylion yn cynnwys enw'r buddiolwr, enw'r prosiect a faint o grant EAFRD a roddir.

•Caiff gofynion unigol o ran brandio eu nodi yn y llythyr cynnig.

Gweler rhagor o wybodaeth https://llyw.cymru/docs/drah/publications/161130-rural-development-programme-2014-2020-information-and-publicity-guidelines-cy.pdf

## Atodiad 1

### Meini Prawf Gwerthuso

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu yn gyntaf ar sail y meini prawf cymhwysedd canlynol. Bydd prosiectau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn cael eu gwrthod yn awtomatig ac ni fyddant yn mynd yn eu blaen i'r cam arfarnu.

| | |
|---|---|
| **Meini Prawf Cymhwysedd** | • Math o gorff allanol.<br>• Rhaid ei gyflawni o fewn yr amserlen briodol erbyn 31 Rhagfyr 2020<br>• Rhaid i bob cais fod wedi nodi sefydliad arweiniol a bod yn gynnig **ar y cyd** ar ran partneriaeth y gyrchfan (h.y. ni fydd yn fuddiolwr unigol).<br>• Rhaid i bartneriaid arweiniol yn y trydydd sector a'r sector preifat fod yn fusnes/elusen sy'n hyfyw yn ariannol ac sydd â mantolen foddhaol yn seiliedig ar **dair** blynedd o gyfrifon ariannol.<br>• o leiaf 10% o arian cyfatebol wedi'i addo<br>• Wedi'i nodi'n flaenoriaeth strategol ar gyfer galwad am arian |

### Meini Prawf Gwerthuso

| | ***Meini Prawf Gwerthuso*** | ***Pwysoliad*** | ***Sgôr*** |
|---|---|---|---|
| 1 | **Cyd-fynd yn Strategol** (Cwestiwn 4)<br>• Cyd-fynd ag amcanion y Gronfa<br>• Blaenoriaeth a nodwyd wrth gyflawni'r cynllun Rheoli Cyrchfannau<br>• Yn cyd-fynd â blynyddoedd thematig Croeso Cymru (h.y. Blwyddyn.....) a Ffordd Cymru<br>• Diwallu anghenion is-grwpiau'r farchnad a bennwyd gan Croeso Cymru | × 10 | /5 |
| 2 | **Ansawdd y Prosiect** (Cwestiynau 3, 16)<br>• Ansawdd cyffredinol y cais a'r disgrifiad o'r cynnig<br>• Manteision ac effaith (e.e. a yw'n sicrhau manteision mesuradwy i fusnesau twristiaeth yn y cyrchfan)<br>• Arloesi<br>• Ystyriaethau amgylcheddol<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2915 | × 5 | /5 |
| 3. | **Tystiolaeth o Angen** (Cwestiwn 5)<br>• Rhesymau dros ymgymryd â'r gweithgarwch (e.e. a yw'n flaenoriaeth yn eich Cynllun Rheoli Cyrchfannau)<br>• Cyfeiriadau at y gweithgarwch a nodir yn y Cynllun Rheoli Cyrchfannau<br>• Cymeradwyaeth gan y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfannau ac Ymgysylltu â'r Sector Ehangach | × 10 | /5 |
| 4. | **Risgiau, Gweithredu a Chyflawni'r Prosiect** (Cwestiynau 6, 8, 9, 12)<br>Ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer:<br>• Cynllun a thîm y Prosiect | × 10 | /5 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Asesiad Risg ar gyfer y prosiect, y cyllid a Llywodraeth Cymru<br>• Strwythur y Tîm Rheoli<br>• Cydweithio ar y prosiect a chytundebau | | |
| **5.** | Elfennau i'w cyflawni gan y prosiect **(Cwestiwn 7)**<br>• Ansawdd targedau'r prosiect<br>• Allbynnau a'r elfennau a gyflawnir, a ddefnyddir i fesur llwyddiant y prosiect<br>• Gwybodaeth fanwl am sut y caiff y rheini eu mesur | × 5 | /5 |
| **6.** | **Costau a Gwerth am Arian y Prosiect** (Cwestiynau 10, 11, 13, 14, 15)<br>• Mae'r cynnig cyffredinol yn cynnig gwerth am arian<br>• Mae'r dyfynbrisiau ar gyfer y gweithgaredd a'r costau cysylltiedig yn realistig ac yn cynnig y gwerth gorau<br>• Costau'r prosiect, yr amserlen hawlio a'r wybodaeth<br>• Mae'r buddion disgwyliedig yn gymesur â'r costau<br>• Ymrwymiad arian cyfatebol 10% neu fwy<br>• Mae'r costau staffio yn gystadleuol ac nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â rheolwyr yn fwy nag 20%<br>• Rhoddir tystiolaeth dda ar gyfer strategaeth ymadael a chynaliadwyedd hirdymor y cynnig<br>• Bydd yn cael effaith yn y farchnad dros gyfnod hwy<br>• Tystiolaeth o waith gwerthuso blaenorol (lle y bo'n berthnasol)<br>• Ychwanegedd | × 10 | /5 |

**Rhoddir sgôr allan o 5 i bob maen prawf. Mae'n bosibl rhoi hanner marciau.**
Mae'r sgoriau'n dangos y canlynol gyda golwg ar y maen prawf dan sylw:

*0 Nid yw'r cynnig yn llwyddo i roi sylw i'r maen prawf dan sylw neu ni ellir ei farnu oherwydd bod gwybodaeth yn eisiau neu'n anghyflawn*
*1 Gwael iawn. Mae'r maen prawf yn cael sylw mewn ffordd frysiog ac anfoddhaol*
*2 Gwael. Mae gwendidau cynhenid difrifol o ran y maen prawf dan sylw*
*3 Gweddol. Er bod y cynnig yn rhoi sylw bras i'r maen prawf, ceir gwendidau sylweddol y bydd yn rhaid eu cywiro*
*4 Da. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael yn dda â'r maen prawf, er y byddai modd gwella rhai pethau*
*5 Rhagorol. Mae'r cynnig yn llwyddo i roi sylw i bob agwedd ar y maen prawf dan sylw. Mân wendidau yn unig yw unrhyw ddiffygion*

**Atodiad 2**

**Rheolwyr Ymgysylltu Twristiaeth Rhanbarthol**

| **Enw** | **Lleoliad** | **Cyfeiriad e-bost** | **Rhif Ffôn:** |
|---|---|---|---|
| Andrew Forfar | Gogledd | AndrewWallace.Forfar@gov.wales | 03000625837 |
| Ceri Turner | Gogledd | Ceri.Turner2@gov.wales | 03000625338 |
| Helen Jones | Canolbarth | Helen.Jones28@gov.wales | 07792610869 |
| Jane Donald | De-orllewin | Jane.Donald@ gov.wales | 03000253086 |
| Philip Abraham | De-orllewin | Philip.Abraham@gov.wales | 03007904528 |
| Louisa Giles | De-ddwyrain | Louisa.Giles@gov.wales | 03000250152 |